# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

**RHAN 2**

HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG

**PENNOD 6**

CAFFAEL, GWARCHEIDIAETH A MYNEDIAD Y CYHOEDD

*Mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus*

**55 Mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ac unrhyw awdurdod lleol sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad i unrhyw heneb sydd o dan eu perchnogaeth neu warcheidiaeth neu ei berchnogaeth neu warcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon; ond mae hyn yn ddarostyngedig—

(a) i'r darpariaethau a ganlyn yn yr adran hon,

(b) i unrhyw reoliadau neu is-ddeddfau a wneir o dan adran 56, ac

(c) i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb sydd wedi ei chynnwys mewn unrhyw gytundeb sy'n ymwneud â'r heneb a wneir o dan adran 25 neu 51 (cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig a chytundebau rheoli).

(2) Mewn perthynas ag unrhyw heneb o dan warcheidiaeth, mae'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1) hefyd yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y weithred warcheidiaeth.

(3) Mae cyfeiriadau yn yr is-adrannau a ganlyn at heneb—

(a) mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, yn gyfeiriadau at heneb—

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(i) sydd o dan eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon;

(ii) sy’n cael ei rheolaethu neu ei rheoli ganddynt ac eithrio yn rhinwedd y Bennod hon;

(b) mewn perthynas ag awdurdod lleol, yn gyfeiriadau at heneb sydd o dan ei berchnogaeth neu ei warcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol reolaethu amseroedd arferol mynediad y cyhoedd i heneb.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol atal y cyhoedd rhag cael mynediad i heneb, neu i unrhyw ran ohoni, am unrhyw gyfnod y maent neu y mae’n ystyried ei fod yn angenrheidiol—

(a) er lles diogelwch;

(b) ar gyfer ei chynnal a’i chadw neu ei diogelu;

(c) mewn cysylltiad â digwyddiadau a gynhelir neu weithgareddau eraill wedi eu trefnu a gyflawnir ynddi neu arni.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol hefyd osod cyfyngiadau a rheolaethau eraill ar fynediad y cyhoedd i heneb, neu i unrhyw ran ohoni, at ddiben a grybwyllir yn is-adran (5).

(7) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol godi tâl ar y cyhoedd am fynediad i heneb.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol wrthod mynediad i berson i heneb os oes ganddynt neu ganddo reswm dros gredu bod y person yn debygol o wneud unrhyw beth sy’n debygol o ddifrodi’r heneb neu ei hamwynderau neu darfu ar y cyhoedd yn eu mwynhad ohoni.